

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dyddiad: 04 Mehefin 2014

Teitl: Cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser yng Nghymru

Diben

1. Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth i ymchwiliad undydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser yng Nghymru.

Cefndir

2. Rydym yn gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser. Mae ail Adroddiad Blynyddol Law yn Llaw at Iechyd – Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, yn dangos sut mae gwasanaethau cancer Cymru wedi datblygu dros y 12 mis diwethaf, ac yn nodi meysydd sydd i'w gwella ymhellach. Mae'r adroddiad i'w weld yma:

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/cancer-plan/?skip=1&lang=cy>

3. Cydweithio rhwng GIG Cymru a'r trydydd sector yw conglaen y Cynllun Cyflawni cenedlaethol ar gyfer Canser. Erbyn hyn mae gan bob bwrdd iechyd gynllun cyflawni lleol sy'n cael ei lywio gan gamau gweithredu cenedlaethol.

Cyflawni'r canlyniadau a'r mesurau perfformiad erbyn 2016

4. Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser, ynghyd â'r cynlluniau cyflawni eraill ar gyfer cyflyrau iechyd blaenllaw, yn darparu methodoleg gadarn i sicrhau bod gwasanaethau yn gwella. Mae gweithredu'r cynllun, gyda'i nifer bach o gamau gweithredu allweddol a'i bwyslais ar ganlyniadau i'r cleifion, yn hytrach nag ar brosesau, yn cael cefnogaeth y gymuned ganser ac mae'n rhoi ffocws cadarn ar gyfer gweithgareddau cydgysylltiedig. Mae'r cynlluniau lleol a baratoir gan y Byrddau Iechyd wedi gwella atebolrwydd gwasanaethau cancer drwy roi gwell tryloywder a chaniatáu mwy o graffu lleol.
5. Mae gan y grŵp gweithredu cancer rôl bwysig wrth fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun. Mae'r ffaith fod adroddiadau a chynlluniau yn cael eu cyhoeddi mewn modd tryloyw yn golygu bod cymunedau, sefydliadau a grwpiau lleol eraill yn gallu herio'r byrddau iechyd ar sail eu cynnydd.
6. Mae'r adroddiad blynyddol yn amlinellu cynnydd yn erbyn y canlyniadau a'r mesurau perfformiad. Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd da yn erbyn y mesurau yn y cynllun, ac yn benodol:

- Cymru sydd wedi dangos y gwelliant mwyaf mewn ffigurau goroesi canser o blith pedair gwlad y Deyrnas Unedig, sef 14% ar gyfer ffigurau goroesi cymharol am flwyddyn a 15% ar gyfer ffigurau goroesi am bum mlynedd, o 1995-99 hyd at 2005-09 a 2001-05, yn y drefn honno;
 - Gwelwyd cynnydd o 5% mewn ffigurau recriwtio i dreialon clinigol a dros y 12 mis diwethaf; cynyddodd y ffigurau rhoddi meinwe i Fanc Canser Cymru 3.4%. Rydym eisoes wedi rhagori ar y targed a osodwyd ar gyfer 2016 yn y cynllun cyflawni;
 - Mae'r cynllun cyflawni yn gosod targed o gyrraedd 70% o ran pennu cam datblygiad canser erbyn 2013-14, ac rydym wedi cyrraedd 73%;
 - I'r cleifion hynny a gyfeirir i'r ysbyty am resymau heblaw amheuaeth o ganser, ond sy'n cael diagnosis o ganser wedyn, mae perfformiad yn erbyn y targed 31 diwrnod wedi ei gyflawni mewn wyth allan o naw mis ers mis Gorffennaf 2013, drwy Gymru gyfan;
 - Mae angen inni adeiladu ar welliannau yn erbyn y targed 62 diwrnod i'r cleifion hynny sydd newydd gael diagnosis o ganser. Mae perfformiad wedi bod oddeutu 90% ers mis Hydref 2013, gan gwmpo i 88% ym mis Mawrth 2014. Er hynny, bu cynnydd yn nifer y bobl a gafodd driniaeth. Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2013, derbyniodd 5,500 o gleifion driniaeth, a derbyniodd 4,718 o'r rheini driniaeth o fewn yr amser targed. Yn ystod yr un cyfnod yn 2013-14 (Ebrill 2013 – Mawrth 2014) cafodd 6,146 o gleifion eu trin, a chafodd 5,391 o'r rheini eu trin o fewn y targed. Mae'r holl fyrddau iechyd wedi ymrwymo i weithio tuag at y targed 62 diwrnod fel rhan o'u cynlluniau integredig, ac mae hyn yn cael ei fonitro'n agos er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau yn cyflawni'r disgwyliadau'n llwyr.
7. Ers cyhoeddi'r adroddiad ym mis Ionawr, llwyddodd Sgrinio Coluddion Cymru i gyrraedd ei darged o 60% yn defnyddio'r gwasanaeth ym mis Chwefror 2014 ac mae ar y trywydd iawn i gynnal y perfformiad hwnnw.
 8. Er bod y grŵp gweithredu canser yn cyflawni swyddogaeth bwysig wrth fonitro'r modd y cyflenwir gwasanaethau, mae'n bwysig sylwi mai dim ond un agwedd ar fonitro ansawdd gwasanaethau yw hon. Mae rheoli perfformiad yn ganolog yn erbyn targedau, archwilio clinigol cenedlaethol, adolygiadau gan gymheiriaid yn ogystal â her gan y cyhoedd, oll yn cyfrannu at ddarparu sicrwydd a gwella ansawdd gwasanaethau.

Anghydraddoldebau o ran mynychder canser a marwolaethau

9. Mae anghydraddoldeb rhwng grwpiau cymdeithasol-economaidd ac ardaloedd daearyddol, o ran mynychder canser a marwolaethau, yn gysylltiedig â phenderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd ac anghydraddoldebau iechyd. Mae angen inni ennill mwy o dir wrth ymateb i'r sialensiau hyn, gan weithredu mewn sawl ffordd wahanol gan gynnwys grymuso unigolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd eu hunain, mynd i'r afael â'r ddeddf gofal

gwrthgyfartal, a sicrhau bod ein hymyraethau yn cael eu hanelu'n effeithiol at y grwpiau anoddaf eu cyrraedd.

10. Mae gwaith ar y penderfynyddion iechyd ehangach fel smygu, diet, alcohol ac ymarfer corff yn hanfodol er mwyn cefnogi newid mewn ymddygiad, gan arwain at lai o achosion o ganser.
11. Mae swyddogion yn gweithio ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd ar gynnig ymchwil i ddatblygu a threialu gwerthusiad o archwiliad iechyd Tenovus: ymyrraeth ymwybyddiaeth o ganser sy'n targedu pobl o gymunedau difreintiedig. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â'r cynllun ymwybyddiaeth a diagnosis cynnar cenedlaethol.
12. Mae gan nifer o'n rhaglenni iechyd y cyhoedd hefyd ran i'w chwarae wrth gynyddu ymwybyddiaeth o ffactorau risg nifer o gyflyrau iechyd, gan gynnwys canser. Un enghraifft yw'r archwiliadau iechyd a lles ar-lein i bobl dros 50 oed, 'Ychwanegu at Fywyd'. Mae'r asesiad hwn yn gweithredu mewn ffordd gyfannol drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor i bobl ar amrywiol faterion. Yn ogystal â rhoi gwybodaeth a chyngor ar ffactorau risg cyffredinol, mae'r asesiad hefyd yn cynnwys cwestiynau sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o fathau penodol o ganser, sy'n berthnasol iawn i'r grŵp oedran hwn. Mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd sgrinio.
13. Mae'r rhaglen 'Ychwanegu at Fywyd', dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru, hefyd wedi ei datblygu i gynnwys camau ychwanegol i sicrhau bod cynifer â phosibl yn cymryd rhan ynddi, ac i sicrhau bod pob grŵp cymdeithasol yn cael cymorth i'w defnyddio. Er enghraifft, mae fy adran i'n gweithio mewn partneriaeth â'r adran Cymunedau a Threchu Tlodi i ddarparu cymorth yn y gymuned mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.
14. Yn gynharach eleni, pasiodd y Cynulliad Cenedlaethol dri Chynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a oedd yn caniatáu pedwar gwelliant i'r Bil Plant a Theuluoedd er mwyn ei ymestyn i Gymru. Pasiwyd pob un ohonynt ac maent bellach yn rhan o'r Ddeddf Plant a Theuluoedd. Maent yn ymdrin â phecyntu cynhyrchion tybaco ar gyfer eu gwerthu, prynu cynhyrchion tybaco drwy brocsi, yr oed ar gyfer gwerthu sigarêts electronig, a smygu mewn ceir sy'n cludo plant. Mae swyddogion yn cydweithio'n agos â swyddogion yr Adran Iechyd yn Lloegr ar brynu cynhyrchion tybaco drwy brocsi, a'r oed ar gyfer gwerthu e-sigarêts, a'u prynu drwy brocsi. Mae swyddogion hefyd yn trafod smygu mewn ceir sy'n cludo plant fel ein bod yn gallu symud law yn llaw â Lloegr os penderfynwn weithredu ar hyn yng Nghymru.
15. Rydym hefyd wedi lansio ymgynghoriad ar ein Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, Gwranddo arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig. Cychwynnodd y cyfnod ymgynghori ar 2 Ebrill a bydd yn dod i ben ar 24 Mehefin. Mae'r Papur Gwyn yn gofyn barn pobl am bedwar mater penodol yn ymwneud â thybaco; creu cofrestr o fanwerthwyr tybaco; defnyddio e-sigarêts mewn mannau cyhoeddus caeedig neu rannol gaeedig; mannau agored di-fwg a gwerthu tybaco dros y rhyngrywd.
16. Rydym wedi cyflwyno targed newydd ar gyfer rhoi'r gorau i smygu, a chaiff hwn ei ddilysu drwy fonitro carbon monocsid (CO). Mae hyn wedi rhoi bywyd o'r newydd

i'r maes i helpu pobl i roi'r gorau iddi. Mae mwy o fferyllfeydd yn darparu gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu lefel tri, yn enwedig yn ardal Cwm Taf, ac mae'r Byrddau Iechyd yn gobeithio gallu cynyddu'r ddarpariaeth hon ymhellach.

17. Mae cam olaf yr ymgyrch Cychwyn Iach Cymru ar smygu mewn ceir yn defnyddio cyllid Cymunedau yn Gyntaf i dargedu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Cefnogwyd hyn drwy ddsbarthu deunyddiau addysg i ysgolion, ynghyd â monitorau carbon monocsid i wasanaethau lleol rhoi'r gorau i smygu.
18. Heb os nac oni bai, atal yw'r arf cryfaf ar gyfer lleihau mynychder canser a marwolaethau o'i oherwydd. Rhaid inni barhau i dargedu ein hymyraethau yn briodol.

Gwasanaethau sgrinio am ganser

19. Mae rhaglenni sgrinio yn gynlluniau iechyd y cyhoedd pwysig oherwydd eu bod yn caniatáu i broblemau iechyd posibl gael eu canfod a'u trin yn fuan. Dengys cyfraddau ar gyfer canser serfigol a chanser y fron yn 2012/13 fod y rhaglenni yn bodloni'r safonau cenedlaethol, gyda'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau sgrinio'r fron yn 71.2% (70% yw'r safon) a'r nifer sy'n cael sgrinio serfigol yn 79.5% (80% yw'r safon).
20. Roedd cyrraedd y safon genedlaethol o 60% ar gyfer sgrinio'r coluddion yn gryn her; 50% oedd y gyfradd sgrinio yn ystod 2012-13. Er hynny, mae'r darlun yn gwella. Mae data diweddar wedi dangos cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio rhaglenni sgrinio'r coluddion dros y pum mis diwethaf, ar draws pob un o'r byrddau iechyd. Ym mis Chwefror 2014, adroddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y nifer sy'n defnyddio rhaglenni sgrinio'r coluddion wedi cyrraedd 60%.
21. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y nifer sy'n defnyddio rhaglenni sgrinio am ganser yn is ymysg y grwpiau mwyaf difreintiedig. Mae lleihau anghydraddoldeb ar draws rhaglenni sgrinio am ganser yn un o'r prif flaenoriaethau, ac yn un y mae is-adran sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi sylw iddi drwy gyfrwng ei phrosiect anghydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys llunio strategaeth er mwyn lleihau'r anghydraddoldeb o ran y nifer sy'n defnyddio rhaglenni sgrinio ledled Cymru; sicrhau bod ymyraethau cynaliadwy ac effeithiol yn rhan annatod o'r gymuned. Mae'r prosiect yn canolbwyntio'n bennaf ar sgrinio'r coluddion, ond mae'r gwaith hefyd yn cynnwys rhaglenni sgrinio canser eraill i oedolion.

Mynediad - diagnosteg a gofal y tu allan i oriau

22. Diagnosis cynnar yw elfen bwysicaf y llwybr canser, a dyna pam ei bod yn bwysig cael gwell data ar gofnodi cam datblygiad y canser adeg y diagnosis. Mae hyn yn caniatáu inni wybod ar ba gam o'r llwybr canser y mae angen inni ganolbwyntio. Mae'r data ar bennu cam datblygiad yn dangos bod gormod o ganserau yn cael eu canfod yn ystod cam tri a phedwar. Rydym yn gweithredu mewn sawl maes felly.

23. Mae gan ofal sylfaenol, a meddygon teulu yn benodol, ran hollbwysig i'w chwarae o ran rhoi diagnosis buan o ganser. Rydym wedi gwneud hyn yn un o flaenoriaethau trefniadau contract newydd meddygon teulu ar gyfer 2014-15. Bydd meddygon teulu yn adolygu'r broses o roi diagnosis o ganser er mwyn dod o hyd i gyfleoedd i wella'r system ofal a dileu'r rhwystrau rhag rhoi diagnosis a thriniaeth fuan. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ganser yr ysgyfaint a chanser gastroberfeddol yn 2014-15.
24. Rydym wedi cydnabod bod rhai o'n hamseroedd aros diagnostig yn rhy hir, ac mae £4m wedi'i fuddsoddi i helpu'r Byrddau Iechyd i gyrraedd y safon 8 wythnos, a pharhau i wneud hynny. Ar gyfer cleifion sydd ar lwybr brys oherwydd amheuaeth o ganser, mae'r cyfnod hyd at y profion diagnostig yn cael ei ddwysáu er mwyn cyflawni'r targed 62 diwrnod. Mae'r byrddau iechyd yn rhoi ystod o gamau ar waith i fynd i'r afael â hyn, fel datblygu mynediad mwy uniongyrchol at feddygon teulu. Bydd hwn yn ffocws allweddol ar gyfer y rhaglen gofal wedi'i gynllunio a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n seiliedig ar ganlyniadau clinigol. Bydd y rhaglen hefyd yn ceisio gwella'r trefniadau ar gyfer cleifion allanol a gofal dilynol. Bydd hyn yn adeiladu ar y camau a gymerwyd yn ystod ein rhaglen gofal heb ei gynllunio, gan weithredu felly ar draws y system gyfan, gan gynnwys gofal y tu allan i oriau.

Cydweithio ar draws sectorau i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion

25. Mae'r adroddiad blynyddol yn rhoi sawl enghraifft o gydweithio ar draws sectorau.
26. Mae'r arolwg o brofiad cleifion canser yn un enghraifft o weithio effeithiol ar draws sectorau. Llywodraeth Cymru, Cymorth Canser Macmillan a'r sefydliad arolygu Quality Health oedd yn gyfrifol amdano, mewn partneriaeth â sefydliadau'r GIG. Mae canlyniadau'r arolwg yn gadarnhaol iawn, gyda'r mwyafrif helaeth o'r cleifion yn dweud eu bod wedi cael gofal da, da iawn, neu ardderchog (97%).
27. Mae'r canlyniadau hefyd yn darparu llinell sylfaen gadarn ar gyfer profi ein gallu i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion. Mae bodloni anghenion cyfannol unigolion yn un o'r camau gweithredu yn y cynllun cyflawni, ac mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod cleifion yn cael cyngor y tu hwnt i'r hyn a gânt am eu hanghenion clinigol. Dywedodd 68% o gleifion drwy'r wlad eu bod wedi trafod neu wedi cael gwybodaeth am effaith canser ar waith neu addysg; dywedodd 51% fod staff yr ysbyty wedi rhoi gwybodaeth iddynt am sut i gael help ariannol neu fudd-daliadau, er bod hyn yn amrywio ledled Cymru.
28. Mae gan y trydydd sector ran allweddol i'w chwarae yn hyn o beth, fel darparwyr cefnogaeth gynhwysfawr i unigolion, a rôl gweithwyr iechyd proffesiynol yw gwybod lle i gyfeirio cleifion am gefnogaeth a chyngor pellach. Yn ystod y flwyddyn nesaf mae'r grŵp gweithredu canser wedi nodi mai gwella rôl y gweithiwr allweddol fydd un o'r blaenoriaethau, a hynny drwy ddarparu mwy o

eglurder a chysondeb i'r swydd, fel galluogwr a fydd yn helpu cleifion i gael gafael ar gyngor cynhwysfawr.

29. Mae Canolfan Canser Felindre yn enghraifft arall o weithgaredd traws sector. Mae'r Ganolfan yn cydweithio â'r byrddau iechyd, drwy gyfrwng y rhwydwaith cancer, i ddatblygu dull o wella gwasanaethau oncoleg aciwt yng Nghymru.